Pwyllgor Yr Amgylchedd, Cynllunio A Chefn Gwlad

Adroddiad I'r Cyfarfod Llawn O Dan Reol Sefydlog 9.9
Ebrill 2005 - Mawrth 2006

1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar y camau a gymerwyd ganddynt i gyflawni eu rhaglenni gwaith. Mae'r adroddiad yn crynhoi gwaith y Pwyllgor rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006.

2. AELODAETH

2.1 Ar hyn o bryd, Aelodau'r Pwyllgor yw: Glyn Davies (Cadeirydd)[1], Lorraine Barrett, Mick Bates, Jocelyn Davies, Tamsin Dunwoody, Elin Jones[2], Carwyn Jones (Gweinidog), a Brynle Williams.

3. CYLCH GWAITH A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones, sef: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3.2 Amlinellir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cyfeirio at agweddau pwysig ar waith y Pwyllgor o dan y penawdau hyn.

4. GWAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YMA

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd y Pwyllgor 16 cyfarfod ffurfiol.

Datblygu polisïau (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

Ymchwiliad i fodloni targedau tirlenwi ac ailgylchu

Cwblhaodd y Pwyllgor ei ymchwiliad i fodloni targedau tirlenwi ac ailgylchu ym Mai 2005. Yr oedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Awst, yn tynnu sylw at y sialens enfawr sy'n wynebu Cymru os yw i gynyddu faint o wastraff a gaiff ei ailgylchu a'i gompostio. Yr oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion a anelwyd at hwyluso ailgylchu a fyddai'n helpu i fodloni targedau tirlenwi ac ailgylchu a osodwyd gan Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

---

[1] Etholwyd Glyn Davies yn aelod o'r Pwyllgor yn lle Alun Ffred Jones ar 30 Tachwedd 2005.
[2] Etholwyd Jocelyn Davies, Tamsin Dunwoody ac Elin Jones yn aelodau o'r Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2005.

Yn Nhachwedd 2005 craffodd y Pwyllgor ar ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'w adroddiad. Cytunodd yr Aelodau i dderbyn adroddiadau diweddaru rheolaidd gan y Gweinidog ar gynnydd a wnaethpwyd i weithredu argymhellion y Pwyllgor. Ym Mawrth 2006 ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad cychwynnol a cheisio safbwyntiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma.

Twbercwlosis mewn Gwartheg

Parhaodd y Pwyllgor i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Gweinidog ar waith y Grwp Gweithredu Cymru ar TB a datblygiadau i drin ac iawndal ar gyfer Twbercwlosis mewn gwartheg. Yr oedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus am gyflwyno profion cyn symud a'r newid i gyfrif iawndal ar ffurf tabl. Yng ngoleuni ei bryderon, fe ymwelodd y Pwyllgor ag Iwerddon ar Fawrth 30-31 i ymchwilio i faterion lles anifeiliaid, i drafod y problemau a wynebir gan y diwydiant amaeth, ac i glywed gan Lywodraeth Iwerddon am ei pholisïau ar gyfer gwaredu'r clefyd.

Cynllun Datblygu Gwledig

Ym mis Mai 2005 dechreuodd y Pwyllgor ystyried cymorth ar gyfer datblygiad gwledig trwy'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig ar gyfer y rhaglenni blynyddoedd 2007 – 2013. Yn Nhachwedd 2005 a Ionawr 2006 derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y prif ddeiliaid diddordeb er mwyn cefnogi ei farn ar y dull gweithredu strategol drafft i ategu'r manylion a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Gwledig olynol ar gyfer Cymru 2007-2013. Wedyn cynhyrchodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd yn ffurfiol i'r Gweinidog ac a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad. Bydd gwaith ar y Cynllun Datblygu Gwledig yn parhau i dymor yr haf pan fydd y Pwyllgor yn ystyried y Cynllun olynol drafft.

Biomas a biodanwydd

Ym mis Mawrth 2006 fe astudiodd y Pwyllgor bosibiliadau'r diwydiannau biomas a biodanwydd yng Nghymru. Er mwyn cael sail i'w farn fe dderbyniodd dystiolaeth gan wyddonwyr yn y maes yn ogystal â chynrychiolwyr o undebau'r ffermwyr. Yn ystod tymor yr haf bydd y Pwyllgor yn edrych ar effaith bioynni ar fioamrywiaeth ac mae wedi gwahodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r RSPC Cymru i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (SO 9.7(ii))

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan y Gweinidog gan alluogi craffu ar bolisïau a phenderfyniadau y mae ef yn atebol amdanynt.

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (SO 9.7(iii))

Yn ei gyfarfod ar 4 Mai cytunodd y Pwyllgor ar y cylchoedd gorchwyl ar gyfer craffu ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o fewn ei bortffolio. Sefydlwyd grwpiau 'rapporteur' a fu'n ymweld â Chyngor Cefn Gwlad Cymru

ac Arolygiaeth Cynllunio Cymru ar 9 Mehefin. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar yr ymweliadau, a wnaeth nifer o argymhellion i'r Gweinidog, yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2005.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

Deddfwriaeth sylfaenol

Yn ei gyfarfod ar 22 Medi 2005 cytunodd y Pwyllgor ar brotocol ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth sylfaenol.

Ym Mehefin 2005, yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod llawn ar Araith y Frenhines cafodd y Mesurau dilynol eu hanfon i'r Pwyllgor

- Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig
- Y Mesur Tir Comin
- Y Mesur Lles Anifeiliaid
- Y Mesur Morol[3].

Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig
Ym mis Gorffennaf a mis Medi 2005 fe ymgymerodd y Pwyllgor â'r dasg o graffu ar y Mesur. Derbyniwyd y gwelliant a awgrymwyd gan y Pwyllgor i Ran 2, Cymal 38 gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yn ddiweddarach fe'i cynigiwyd fel gwelliant Llywodraeth y DU.

Y Mesur Tir Comin
Ym mis Medi a Tachwedd 2005 craffodd y Pwyllgor ar y Mesur Tir Comin. Cafodd dystiolaeth gan y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol, Tir Comin Cymru ac RSPB Cymru.

Y Mesur Lles Anifeiliaid
Yn Ionawr 2006 fe ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Lles Anifeiliaid, yr oedd wedi craffu ar fersiwn ddrafft ohono ac wedi adrodd arno yn Chwefror 2005. Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon gyda'r Mesur fel yr oedd wedi'i ddrafftio a chofnododd ei ddymuniad i graffu'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Ddeddf.

Yn unol â'r protocol a gytunwyd, cafodd adroddiadau'r Pwyllgor ar y ddeddfwriaeth uchod eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.

Is-ddeddfwriaeth
Derbyniodd y Pwyllgor amserlen fanwl am ddeddfwriaethau sydd i ddod o fewn portffolio'r Gweinidog fesul tymor. Yn ystod y flwyddyn dan sylw fe ystyriodd y Pwyllgor 24 darn o ddeddfwriaeth, y mae'r manylion amdanynt yn **Atodiad 1.**

---

[3]. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymgynghoriad ar y Mesur Morol yn ystod tymor yr haf ac yn gwneud gwaith craffu cyn-ddeddfwriaethol yn yr hydref

Yn unol â'r protocol a gytunwyd, cafodd adroddiadau'r Pwyllgor ar y ddeddfwriaeth uchod eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

- **Cyfarwyddeb REACH**

Yn ei gyfarfod ar 4 Mai 2005 fe ystyriodd y Pwyllgor gynigion REACH y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer strategaeth gemegol newydd yr Undeb Ewropeaidd. Yn y misoedd dilynol derbyniodd ddiweddariad ar yr astudiaeth gwmpasu a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda golwg ar y Rheoliad REACH. Hefyd ceisiodd y Pwyllgor farn Dow Corning, sef aelod o Gymdeithas y Diwydiannau Cemegol, a chan Gronfa Bywyd Gwyllt y Byd. Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad a'r casgliadau oedd yn dod i'r amlwg o'i drafodaethau ar 13 Gorffennaf. Fe ddarparodd y Gweinidog y newyddion diweddaraf ar y datblygiadau o ran cymryd camau gyda'r cynigion yn Ionawr 2006.

- **Rhaglen Waith Flynyddol yr UE 2006**

Ystyriodd y Pwyllgor Raglen Waith Flynyddol 2006 y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2006 ac wrth wneud hynny dynododd fel ei flaenoriaethau, y Papur Gwyrdd ar addasu i newid yn yr hinsawdd, y Papur Gwyrdd ar Bolisi Morol yr UE at y Dyfodol, ac Adolygiad o'r rheolau iechyd ar isgynnyrch anifeiliaid. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i dderbyn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar faterion yr oedd wedi'u dynodi'n flaenorol o fewn Rhaglen 2005, yn ogystal â chydfodolaeth GMO, bio-danwydd a chnydau ynni.

Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

Amlinellodd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn ei gyfarfod ar 25 Mai a rhoddodd sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2005.

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))

Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2005 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan yr Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn ymwneud â chwyn yn erbyn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr y Pwyllgor ar benodiadau cyhoeddus i benodi XX. Etholwyd Glyn Davies a Lorraine Barrett fel cynrychiolwyr Penodiadau Cyhoeddus y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2006 yn lle Alun Ffred Jones a Sandy Mewies.

Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(v))

Ym mis Mehefin 2005 cyflwynwyd y Mesur Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, y Mesur Lles Anifeiliaid, y Mesur Tir Comin a'r Mesur Morol at y Pwyllgor er mwyn iddo graffu arnynt.

Y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (Rheol Sefydlog 17)

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod yn ystod y cyfnod o dan sylw. Aethpwyd i'r afael ag un ar ddeg achos. Yn **Atodiad 2,** ceir adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006.

5. MATERION TRAWSBYNCIOL

Cyfle Cyfartal

Pan ystyriodd y Pwyllgor y blaenoriaethau o ran y gyllideb ar gyfer Prif Grwp Gwariant yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, gofynnodd am fwy o dryloywder fel bod symiau a wariwyd i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gallu cael ei fonitro'n rhwyddach. Hefyd gofynnodd y Pwyllgor, ble bynnag mae materion cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio ac fod arian yn cael ei ddyrannu, fod hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhapurau'r Gweinidog i'r Pwyllgor.

Ar Fehefin 9, yn ystod ymweliadau rapporteur â dau gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio, craffodd Aelodau'r Pwyllgor sut yr oedd y cyrff hyn yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Yr oedd y ddau gorff yn gweithio gyda chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig i gynyddu cynrychiolaeth ymhlith eu staff ac i godi ymwybyddiaeth am eu gwaith.

Ar Fawrth 23, cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod ym mhencadlys Cyngor Sir Benfro yn Hwlffordd, gan gynyddu'r mynediad i drafodaethau'r Pwyllgor i bawb.

Datblygu cynaliadwy

Nododd y Pwyllgor nad oedd y symiau a ddyrannwyd yng nghyllideb y Gweinidog yn 2004-05 wedi'u gwario a gofynnodd am sicrwydd na fyddai tanwario pellach yn digwydd.

Yn ystod ymweliadau rapporteur â'r Arolygiaeth Gynllunio a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar 9 Mehefin, canfu'r Aelodau nad oedd yr Arolygiaeth Gynllunio wedi derbyn arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad ar sut i fesur materion cynaliadwyedd, fodd bynnag, gwelwyd fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gwneud defnydd rheolaidd o erfyn integreiddio polisi'r Llywodraeth.

6. BLAENRAGLEN

6.1 Yn **Atodiad 3,** amgaeir blaenraglen waith strategol y Pwyllgor y cytunwyd arni ar ddechrau'r cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef.

ATODIAD 1

Is-ddeddfwriaethau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

- Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005
- Gorchymyn Pwyllgorau Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru, Hafren Trent a Gogledd Orllewin Lloegr (Newid Ffiniau) 2005
- Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Olrhain a Labelu) (Cymru) 2005
- Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
- Rheoliadau Hadau Grawnfwyd (Cymru) 2005
- Rheoliadau Tir Cynnal 2005
- Rheoliadau Cerbydau Gadawedig (Cymru) 2005
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005
- Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Brechu) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru) 2005
- Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) 2005
- Rheoliadau Cynllun y Taliad Sengl Trawsgydsynio (Cymru) (Diwygio) 2005
- Rheoliadau Bwydydd (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005
- Cyfarwyddiadau FfySH (Cymru) 2005
- Rheoliadau Cig (Rheolaethau Swyddogol) (Ffioedd) (Cymru) 2005
- Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006
- Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Aelodaeth) 2006
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006
- Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006
- Gorchymyn Iawndal Gwartheg (Cymru) 2006
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) 2006
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2006

ATODIAD 2

PWYLLGORAU PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: EBRILL 2005 - MAWRTH 2006

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio o fis Ebrill 2005 tan fis Mawrth 2006.

2 Aelodaeth

2.1 Etholir pob Pwyllgor o'r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (neu grŵp o apelau/geisiadau). Etholir yr aelodau o blith aelodau'r Panel Penderfyniadau Cynllunio, sy'n cynnwys yr Aelodau hynny o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad sydd wedi cael hyfforddiant pwrpasol.

3 Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Amlinellir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn Rheol Sefydlog 17.

4 Cyfarfodydd

4.1 Cafodd yr achosion a ganlyn eu hystyried yn ystod cyfnod yr adroddiad:

PDC(2) 2005-03

– Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Mr W Davies o Davmor Developments ar gyfer datblygu byngalo preswyl ym Maes yr Eglwys, Llanymddyfri (plot 4)**.**

– Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Mr W Davies o Davmor Developments ar gyfer datblygu byngalo preswyl ym Maes yr Eglwys, Llanymddyfri (plot 3)**.**

– Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Mr W Davies o Davmor Developments ar gyfer datblygu ffordd breswyl ym Maes yr Eglwys, Llanymddyfri**.**

– Cais cynllunio a alwyd i mewn dan adran 77 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ar gyfer datblygu safle preswyl o 0.75 hectar ar dir yn Heol Pluguffan, Llanymddyfri; ac

– Apêl gynllunio dan Adran 78 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod y caniatâd cynllunio adolygol gan Mr a Mrs Berry ar gyfer safle 1 garafán breswyl, 1 garafán deithio a siediau cysylltiedig ar gyfer un

teulu o sipsiwn ar dir yn Berryland, Ffordd Homestead, Wrecsam ac apêl a wnaethpwyd dan adran 174 y ddeddf honno yn erbyn hysbysiad gorfodi a roddwyd yn honni newid defnydd y tir ar gyfer darparu lle i garafán breswyl gyda siediau cysylltiedig â pharcio cerbydau ar dir yn Berryland, Ffordd Homestead, Wrecsam.

PDC(2) 2005-04

– Cais cynllunio a alwyd i mewn o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Holts Holdings ar gyfer dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu anheddau newydd yn Fferm y Banc, Ffordd Mynydd Isaf, Penyffordd, Sir y Fflint; a

– Apêl gynllunio o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig (oddeutu 150 o dai) ar dir yn Fferm Tŷ Draw, y Pil, Pen y Bont ar Ogwr

PDC(2) 2006-01

– Cais cynllunio a alwyd i mewn gan Mrs R C Sullivan ar gyfer datblygiad preswyl ar dir oedd yn adnabyddus gynt fel y 'Botanical Beer Bottling Store, East of the Paddocks, Aberaman, Aberdâr.
Cais rhif 04/1749; a

– Y gorchymyn rheilffordd Pontypwl a Blaenafon (cam 1) ar gyfer trosglwyddo'r pwerau i gynnal a chadw a gweithredu'r rheilffordd bresennol ym Mwrdeistref Torfaen i Bontypwl a Blaenafon, a gwneud darpariaethau eraill i'r rheilffordd.

PDC(2) 2006-03

- Y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd): adran 78
- Apêl gan gynulliad Cenedlaethol Cymru - datblygiad preswyl arfaethedig yn dilyn dymchwel adeiladau presennol yn Ysbyty Meadowslea, Penyffordd, Sir y Fflint; a
- Apêl gynllunio ac apêl cydsyniad adeilad cofrestredig gan T-Mobile (UK) Ltd i newid y lwferau presennol am lwferau grp i hwyluso gosodiadau mewnol lleoliad gorsaf ffonau symudol yn Eglwys Sant Thomas, Stryd y Baddon, y Rhyl.

5. Ceir copïau o Adroddiadau'r Arolygydd a'r llythyrau penderfynu ar gyfer yr achosion uchod ar wefan y Pwyllgor.

ATODIAD 3

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

BLAENRAGLEN WAITH 2004-05

RHAN 1: BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL

Mis Mai 2005 tan fis Rhagfyr 2006

Cyflwyniad

1. Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae'r Flaenraglen Waith Strategol yn pennu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y 18 mis nesaf. Fe'i hategir gan raglenni manwl sy'n ymdrin â thymor ar y tro.

Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Yn unol â s57(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1988, mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac y mae'n cynnwys: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig, gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8, sef:

9.7: Bydd pob Pwyllgor Pwnc yn:

(i) cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol amdanynt i'r Cynulliad ac yn y meysydd y mae'r Gweinidog hwnnw wedi derbyn cyfrifoldebau eraill (ac eithrio rheolaeth busnes y Cynulliad a'i arian a materion o fewn cylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol).

(ii) cadw golwg ar y gwariant a gweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) cadw golwg ar gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny a meysydd cyfrifoldeb gan gyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chyrff preifat.

9.8 Bydd pob Pwyllgor Pwnc hefyd, o fewn y meysydd cyfrifoldeb perthnasol a'r meysydd cyfrifoldeb yn,

(i) cynghori ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys perfformio ei swyddogaethau dan Reol Sefydlog 24;
(ii) darparu cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion cysylltiedig â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 21;
(iii) gwneud ei swyddogaethau dan Reol Sefydlog 23 (cwynion);
(iv) gwneud unrhyw swyddogaethau a ddynodir iddo dan y Côd Ymarfer ar y Weithdrefn Benodiadau Cyhoeddus a wnaethpwyd gan y Cynulliad dan Reol Sefydlog 22; ac
(v) ystyried materion a gyfeirir ato gan y Cynulliad o fewn ei feysydd cyfrifoldeb.

Amcanion

4. Gyda maes cyfrifoldeb mor eang, bydd y Pwyllgor yn datblygu dull strategol at ei waith a cheisio cadw cydbwysedd rhwng ystyriaeth o bynciau trwy'r portffolio a'i ystod o gyfrifoldebau.

Blaenoriaethau

5. Blaenoriaethau'r Pwyllgor am y cyfnod i ddod yw:

- *Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7(i))* – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Pwyllgor:

    - Yn cwblhau ei ymchwiliad ar fodloni targedau tirlenwi ac ailgylchu;
    - Yn dechrau derbyn tystiolaeth ar ei bedwerydd ymchwiliad yn hydref 2005
    - Yn parhau i fonitro gwaith Llywodraeth y Cynulliad gyda golwg ar ymdrin â a rheoli twbercwlosis mewn gwartheg
    - Yn gwneud gwaith ar amgylchedd y môr.

- *Craffu ar waith y Gweinidog (Rheol Sefydlog 9.7(ii))* – bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Gall y Pwyllgor hefyd gynnal rhai ymchwiliadau manylach.

- *Craffu ar gyrff perthnasol (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))* – bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru yr Arolygiaeth Gynllunio a chyrff perthnasol eraill mewn perthynas â'u gweithgareddau ym mhortffolio yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Yn hytrach na chraffu ar eu perfformiad yn erbyn eu holl dargedau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar agweddau penodol o waith y cyrff perthnasol, neu ar weithredu ar y cyd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynghori ar adolygiadau pum mlynedd, neu eraill, y cyrff cyhoeddus.

- *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (Rheolau Sefydlog 9.8(i) a 24)* – bydd y Gweinidog yn adrodd yn rheolaidd ar is-ddeddfwriaeth arfaethedig. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a gynigir ac yn craffu ac yn adrodd ar ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynwyd iddo gan y Cyfarfod Llawn. Bydd y Pwyllgor yn dewis eitemau o blith yr eitemau o ddeddfwriaeth lle mae cyfle i'r Pwyllgor ddylanwadu arnynt a bydd hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Lywydd, fel bo'n briodol. Gyda golwg ar ddeddfwriaeth yr UE, mae'r Pwyllgor, yn unol â'r dull gweithio a'r protocol a gytunwyd gan Banel y Cadeiryddion, wedi nodi nifer o strategaethau thematig y mae'n dymuno dylanwadu arnynt a bydd yn ceisio gwneud hynny mewn modd amserol a phriodol.

- *Eitemau eraill (Rheol Sefydlog 9.8)* – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

    - *cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (ii) a 21) – bydd y Pwyllgor yn mynd ati yn ystod tymor yr haf i nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref. Bydd yn monitro cynnydd Llywodraeth y Cynulliad yn y meysydd y bydd y Pwyllgor yn eu pennu fel blaenoriaethau yn y gyllideb 2005-06;

    - *cwynion* (Rheolau Sefydlog 9.8(iii) a 23) - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato o dan Rheol Sefydlog 23;

    - *penodiadau cyhoeddus* (Rheolau Sefydlog 9.8(iv) a 22) – bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

    - *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond hoffai ofyn i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sy'n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor.

Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau ar y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff gwaith y Pwyllgor ei arwain gan y canlynol:

- *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Dros yr ystod o faterion o fewn ei bortffolio, bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gyfle cyfartal;

- *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – bydd y Pwyllgor yn craffu ar rannau perthnasol o adroddiadau cynnydd blynyddol ar y camau i fodloni ymrwymiadau Cynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad a Chynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad, a'r graddau y cafodd datblygu cynaliadwy ei integreiddio i waith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb, bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw penderfyniadau cyllidebol yn ategu'r gwaith o lunio polisïau cynaliadwy. Bydd argymhellion adolygiadau polisi'r Pwyllgor yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Gan fod y Gweinidog yn gyfrifol am gydgysylltu datblygu cynaliadwy, bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â gwaith datblygu polisi a chraffu manwl yn y maes hwn, megis craffu ar Gynllun Gweithredu drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar y broses o lunio dangosyddion cynaliadwyedd.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Mai 2006